

Manon Antoniazzi

Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth
Gyhoeddus
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

22 Hydref 2021

Annwyl Mark

Craffu ar adroddiad a chyfrifon blynyddol 2020-21

Yn dilyn ein hymddangosiad gerbron eich Pwyllgor ar 6 Hydref, rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth i chi a fydd yn ategu'r atebion a roddwyd gennym yn ystod y cyfarfod.

Gofynnwyd am y wybodaeth a ganlyn ac mae wedi'i nodi yn yr atodiad sydd ynghlwm:

- esboniad ar gyfer y cynnydd mewn defnydd o ddŵr yfed pan fu llai o bobl ar yr Ystad.
- gwybodaeth ychwanegol am y profion system helaeth a gynhaliwyd fel rhan o brosiect Legislative Workbench.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am ddiweddariad yn ystod y flwyddyn, ym mis Chwefror 2022, ynglŷn â'r cynnydd o ran meincnodi economaidd-gymdeithasol mewn perthynas â staff y Comisiwn. Gyda chaniatâd y Pwyllgor, byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor ym mis Ebrill 2022. Bydd hyn yn galluogi'r Comisiwn i ddarparu set ddata lawn o 12 mis i'r Pwyllgor ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2022.

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu. Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu mewn ffordd agored, dryloyw a chlr. Felly, os oes unrhyw beth arall y gallwn ei roi ichi i gynorthwyo trafodaethau'r Pwyllgor, mae croeso ichi roi gwybod imi.

Yn gywir



Manon Antoniazzi

Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in both English and Welsh



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ Contact@senedd.cymru

☎ 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ Contact@senedd.wales

☎ 0300 200 6565

Atodiad 1

1. Esboniad ar gyfer y cynnydd mewn defnydd o ddŵr yfed pan fu llai o bobl ar yr Ystad.

Mae ein Hadroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol a'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cadarnhau bod y defnydd o ddŵr yfed yn sylweddol is yn 2020-21, ar 1,642m³, o'i gymharu â llinell sylfaen 2014-15, sef 6,117m³, gan fod yr adeilad wedi bod ar gau am gyfnodau'r cyfyngiadau symud.

Fodd bynnag, rydym wedi darganfod camgymeriad yn ein Hadroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol ar gyfer 2020-21. Mae'r adroddiad yn cynnwys un tabl sy'n nodi bod cynnydd yn y defnydd o ddŵr yfed; mae'r nodyn hwn yn cyfeirio at 2019-20 a dylai fod wedi cynnwys naratif wedi'i ddiweddarau yn cyfeirio at 2020-21.

Roedd y cynnydd o 1.6 y cant yn y defnydd o ddŵr yn ystod 2019-20 o'i gymharu â'r flwyddyn llinell sylfaen o ganlyniad i fwy o ddefnydd cyhoeddus o'r ystad, a chawsom rai problemau cynnal a chadw hefyd a gyfrannodd at y cynnydd.

2. Gwybodaeth ychwanegol am y profion system helaeth a gynhaliwyd fel rhan o brosiect Legislative Workbench.

Fel y nodwyd pan aethom gerbron y Pwyllgor yn ddiweddar, fel rhan o brosiect Legislative Workbench cynhaliwyd profion helaeth ar y system a phroffion derbynioldeb i ddefnyddwyr cyn ei chyflwyno i'r gwasanaeth. Mae hyn wedi rhoi'r sicrwydd inni ei bod yn gweithio fel y nodwyd, ac y gallwn fod yn hyderus y bydd y broses ddeddfwriaethol yn cael ei chefnogi yn ystod y Chweched Senedd. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn hyd yn hyn.

Roedd y profion helaeth ar y system a'r profion derbynioldeb i ddefnyddwyr yn cynnwys y canlynol:

- Yn gynnar yn y broses, dewiswyd grŵp o wyth swyddog profiadol iawn ym maes craffu deddfwriaethol, gan gynnwys tri Chlerc Pwyllgor, i fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r feddalwedd. Byddai'r un grŵp hwn o unigolion wedyn yn gyfrifol am brofi'r system.
- Lluniwyd sgriptiau profi gan y Rheolwr Prosiect a oedd yn adlewyrchu gam wrth gam y broses o graffu ar filiau. Yna, roedd modd edrych yn ôl at y gofynion cychwynnol i ddangos pa ofynion a oedd wedi'u bodloni a'r hyn nad oedd yn gweithio'n iawn.
- Nodwyd bod pedwar Bil yn cyd-fynd â'r gofynion – gan gynnwys bil syml heb unrhyw welliannau, bil comisiwn i'w ddrafftio, a bil cymhleth mawr er mwyn profi'r system am unrhyw wendidau. Mae tri o'r pedwar bellach yn Ddeddfau ac felly roedd modd mynd drwy'r union welliannau a senarios eto er mwyn sicrhau bod y system yn rhoi'r canlyniadau a ddisgwyllir. Roedd hefyd yn golygu bod gennym y dogfennau gwreiddiol i ddangos Propylon pe bai angen iddynt weld sut y dylid fformatio rhywbeth.
- Rhannwyd y sgriptiau ar gyfer y Biliau hyn â swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn gweithredu ar y cyd wrth brofi, yn enwedig ar gyfer y camau cyflwyno a gwelliannau.



- Cynhaliwyd cyfarfodydd bob pythefnos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod unrhyw ddiffygion a nodwyd, ac yna cafwyd cyfarfodydd bob pythefnos a oedd yn cynnwys Propylon i gael adborth ar y diffygion a adroddwyd.

Mae hon wedi bod yn broses hynod lafurus a chymhleth, ond yn un a oedd yn angenrheidiol yn ein barn ni, er mwyn sicrhau na fyddai angen tarfu ar gyfrifoldeb allweddol y Senedd, sef gwneud deddfwriaeth sylfaenol a chraffu arni, er mwyn diweddarau'r feddalwedd sy'n cefnogi'r gwaith hwnnw. Gyda cham 1 y prosiect wedi'i gwblhau, mae'r Legislative Workbench newydd (LWB360) yn barod i'w defnyddio, tra bod gwaith yn parhau yng ngham 2 i ddatblygu swyddogaethau newydd.

Mae'r profiad a dealltwriaeth o'r feddalwedd newydd sydd wedi datblygu o fewn y Grŵp Defnyddwyr yn ystod y broses brofi bellach yn cael eu defnyddio i hyfforddi a chefnogi cydweithwyr a fydd yn defnyddio'r system Legislative Workbench newydd i brosesu Biliau cyntaf y Chweched Senedd, gan ddechrau'r mis hwn gyda'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru).

Rydym hefyd am ehangu aelodaeth y Grŵp hwnnw gan ragweld y galw am y staff hynny i gefnogi 'busnes fel arfer' hefyd tua diwedd y flwyddyn, yn enwedig mewn perthynas â'r broses o graffu ar y gyllideb. Ein nod yw rheoli ein hadnoddau mewn ffordd lle nad oes effaith negyddol ar ein gallu i ymgymryd â chyfnod allweddol o'r broses brofi ar gyfer cam 2 y prosiect, sy'n debygol o gyd-fynd â chyfnod arbennig o brysur i bwyllgorau.

